

DRAFFT

Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad

Cod Ymarfer a Chanllawiau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad

Cod Ymarfer a chanllawiau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad

Cyhoeddwyd o dan adrannau 145 a 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cynnwys

1 Rhaglith	2
RHAN 1 – Cod Ymarfer	
2 Trosolwg	4
3 Paratoi Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad	7
4 Cynnwys a strwythur yr adroddiadau	19
5 Cyflwyno, monitro ac adolygu	21
RHAN 2 – Canllawiau Statudol	
6 Trefniadau partneriaeth	22

1. Rhaglith

- 1.1. Mae Adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoliadau sy'n nodi eu ffurf, y materion sydd i'w cynnwys, a'r cyfnod rhagnodedig ar gyfer cynnal asesiadau o sefydlogrwydd y farchnad. Nodir y materion hyn yn *Rheoliadau Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a Threfniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2021* ('y Rheoliadau').

Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ynghylch ffurf drafft y Rheoliadau hyn, ochr yn ochr â'r cod ymarfer hwn.

- 1.2. Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn rhaid paratoi a chyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar ôl-troed rhanbarthol, gydag awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn cydweithio drwy'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae cyfansoddiad, rôl a swyddogaethau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu hegluro mewn canllawiau statudol ar drefniadau partneriaeth mewn perthynas â Rhan 9 o Ddeddf 2014:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/rhan-9-canllawiau-statudol-trefniadau-partneriaeth.pdf>
- 1.3. Mae dwy ran i'r ddogfen hon:
- **Rhan 1** (penodau 2-5) sef cod ymarfer i awdurdodau lleol ar arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.
 - **Rhan 2** (pennod 6) sef canllawiau statudol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar weithio mewn partneriaeth drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i baratoi ac i gyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.
- 1.4. Mae'r cod ymarfer ar gyfer awdurdodau lleol (Rhan 1) yn cael ei gyhoeddi o dan adran 145 o Ddeddf 2014, sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu ei bod yn **rhaid** i awdurdodau lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth i arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, weithredu'n unol â'r gofynion yn y cod hwn. Nid yw adran 147 o Ddeddf 2014 (gwyro oddi wrth y gofynion yn y codau) yn berthnasol i unrhyw ofynion sydd yn y cod hwn, felly mae'n rhaid dilyn y cod hwn yn llawn. Mae'r cod yn disgrifio sut bydd awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau o sefydlogrwydd y farchnad, a beth sydd angen ei gynnwys mewn adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Mae'n disgrifio sut mae adroddiadau ar

sefydlogrwydd y farchnad yn berthnasol i asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynlluniau ardal, ac yn nodi'r amserlen ar gyfer cynnal asesiadau a chyflwyno'r adroddiadau.

- 1.5. Mae'r canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol (Rhan 2) yn cael eu cyhoeddi o dan adran 169 o Ddeddf 2014, ac mae'n **rhaidd** i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol roi sylw iddynt. Maent yn ymdrin yn benodol â'r trefniadau partneriaeth ar gyfer paratoi a chyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.
- 1.6. Yn y cod ymarfer a'r canllawiau statudol, mae gofyniad yn cael ei fynegi fel rhywbeth mae'n **rhaidd** neu mae'n **rhaidd peidio** ei wneud. Mae'r canllawiau'n cael eu mynegi fel 'gellir' a 'gellir peidio' neu 'dylid' a 'dylid peidio'.
- 1.7. Dylid darllen y cod a'r canllawiau hyn ar y cyd â'r Cod Ymarfer a'r canllawiau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth mewn perthynas â Rhan 2 o Ddeddf 2014, yn enwedig penodau 2 A a B sy'n ymdrin ag asesiadau o anghenion y boblogaeth.

Ymgynghoriad

- 1.8. Mae Adran 144B yn gosod dyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag unrhyw un maent yn credu sy'n briodol cyn gwneud rheoliadau ar faterion eraill sy'n ymwneud â gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sydd i'w cynnwys yn yr asesiad o sefydlogrwydd y farchnad. Wrth ddatblygu'r Rheoliadau a'r cod ymarfer / canllawiau statudol hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'i harfer o weithredu Deddf 2014 mewn ffordd sy'n ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran mewn digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid neu a fu'n aelodau o'r grŵp cyfeirio.

RHAN 1 Cod Ymarfer

2. Trosolwg

- 2.1. Mae'r bennod hon yn crynhoi beth yw adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a'r fframwaith cyfreithiol cyffredinol ar gyfer eu paratoi a'u cynhyrchu.

Beth yw adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad?

- 2.2. Mae adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn ddogfen a gyhoeddir sy'n disgrifio nodweddion allweddol y farchnad gofal cymdeithasol yn ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n cynnwys asesiad o ddigonolrwydd y gofal a'r cymorth sydd yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a sefydlogrwydd cyffredinol y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
- 2.3. Bydd paratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn gam pwysig i sicrhau bod marchnadoedd sefydlog a chadarn ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion ac i blant ar draws pob rhanbarth yng Nghymru. Bydd hynny hefyd yn hyrwyddo dulliau cynaliadwy a phartneriaeth o gyflawni hyn. Mae pandemig Covid-19 wedi rhoi hwb ychwanegol i fesurau i sicrhau bod marchnadoedd gofal cymdeithasol yn sefydlog, ac i greu marchnad gofal cymdeithasol sy'n fwy cadarn ac amrywiol i'r dyfodol.
- 2.4. Bydd asesiadau o sefydlogrwydd y farchnad yn helpu i bennu siâp a chydbwysedd cyffredinol y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan sicrhau nad yw comisiynwyr yn dibynnu gormod ar unrhyw un sector nac ar nifer gyfyngedig o ddarparwyr. Bydd hyn yn golygu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu defnyddio arweinyddiaeth sy'n fwy cyson a chadarn wrth reoli'r farchnad ar gyfer gofal cymdeithasol.
- 2.5. Bydd yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r asesiad o anghenion y boblogaeth, sy'n nodi'r galw a'r angen am ofal a chymorth yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gyda'i gilydd byddant yn cyfrannu at y cynllun ardal, a fydd maes o law yn helpu i lunio strategaethau comisiynu manylach a datganiadau o sefyllfa'r farchnad ar gyfer gwasanaethau penodol yn ôl yr angen.
- 2.6. Bydd adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn cael eu cynhyrchu bob pum mlynedd, a rhaid cyhoeddi'r adroddiadau cyntaf erbyn mis Mehefin 2022.

Y fframwaith cyfreithiol

- 2.7. Mae'r ddyletswydd i baratoi ac i gyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad wedi'i chynnwys yn adran 144B o Ddeddf 2014, ac fe'i mewnosodwyd gan adran 56 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016'), sy'n nodi'r system ar gyfer rheoleiddio ac arolygu'r gofal cymdeithasol sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru. **Mae disgwyl i'r darpariaethau gychwyn, yn rhannol, ar 1 Ebrill 2021.**
- 2.8. Mae adran 144B yn golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad sy'n cynnwys asesiad o ddigonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir; unrhyw fater arall sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio fel y rhagnodir gan reoliadau; ac effaith yr awdurdod yn comisiynu unrhyw wasanaethau mewn cysylltiad â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ar y swyddogaethau hynny. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod dan sylw yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 189(2) o Ddeddf 2014, i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion os bydd darparwr wedi methu gwneud hynny.
- 2.9. Mae adran 144B yn golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r Bwrdd Iechyd Lleol y cynhaliodd yr asesiad o anghenion y boblogaeth gydag ef. Fodd bynnag, drwy ddiwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, **mae'r Rheoliadau'n golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol gyflawni'r swyddogaethau hyn mewn partneriaeth ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.**
- 2.10. Mae'r Rheoliadau'n pennu y dylai'r cyfnod ar gyfer asesu digonolrwydd y gofal a'r cymorth, ac effaith comisiynu a chyllido ar y ddarpariaeth neu ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, fod yn bum mlynedd ers cynhyrchu'r asesiad diwethaf o anghenion y boblogaeth. Mae'r Rheoliadau'n golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad bob pum mlynedd, gyda'r adroddiadau cyntaf yn cael eu cyhoeddi erbyn 1 Mehefin 2022. Mae hyn yn golygu y bydd asesiadau o sefydlogrwydd y farchnad yn cael eu cynnal ar yr un pryd â'r asesiadau o anghenion y boblogaeth, ac mae'n eu cysylltu â chylch etholiadol pum mlynedd llywodraeth leol. Mae'r berthynas rhwng yr asesiad o anghenion y boblogaeth, yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, a'r cynllun ardal, gan gynnwys y cyfnod ar gyfer eu cynhyrchu, yn cael ei hegluro ymhellach ym mhennod 3 isod.
- 2.11. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys Atodlen sy'n rhestru'r materion penodol y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad mewn perthynas â gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys digonolrwydd ac ansawdd cyffredinol y gwasanaethau hynny sy'n cael eu darparu, tueddiadau cyffredol neu sy'n datblygu, heriau sylweddol, ac effaith comisiynu a chyllido ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

- 2.12. Rhaid cyflwyno adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad i Weinidogion Cymru. Mae'r Rheoliadau'n mynnu eu bod ar ffurf electronig, ac mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gyhoeddi'r adroddiad ar gyfer ei ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ei wefan. (Gweler pennod 5 isod.)

Trosolwg o'r farchnad

- 2.13. Cafodd darpariaethau sefydlogrwydd y farchnad eu mewnosod yn Neddf 2014 drwy adran 56 o Ddeddf 2016, a'u bwriad oedd gweithio ar y cyd ag adrannau 59 i 63 o Ddeddf 2016 sy'n darparu ar gyfer sefydlu trefn trosolwg o'r farchnad statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau.
- 2.14. Mae sgysiau cychwynnol rhwng Llywodraeth Cymru, y rheoleiddiwr (Arolygaeth Gofal Cymru) a rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a darparwyr, wedi awgrymu efallai na fydd cyflwyno cynllun trosolwg o'r farchnad statudol yn briodol nac yn gymesur ar hyn o bryd. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu fframwaith trosolwg o'r farchnad anstatudol, sy'n briodol i gyd-destun Cymru a defnyddio ffynonellau gwybodaeth sydd eisoes ar gael am ddarparwyr. Bydd yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a gynhyrchir o dan adran 144B yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw. Mae cychwyn adran 144B yn golygu ei bod rhaid parhau i adolygu'r penderfyniad i beidio â chychwyn y darpariaethau trosolwg o'r farchnad yn adrannau 59 i 63. Bydd monitro effeithiolrwydd y fframwaith trosolwg o'r farchnad anneddfwriaethol yn rhan allweddol o'r broses hon o adolygu parhaus.
- 2.15. Mae'r penderfyniad i beidio â gweithredu'r darpariaethau trosolwg o'r farchnad yn golygu na ellir dechrau'r gofyniad i asesu (fel rhan o'r asesiad o sefydlogrwydd y farchnad) i ba raddau y cafodd gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio eu darparu mewn ardal awdurdod lleol gan ddarparwyr gwasanaethau y mae adran 61 o Ddeddf 2016 yn berthnasol iddynt (1).

(1) Byddai adran 61 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy'r rheoleiddiwr gwasanaeth, asesu cynaliadwyedd ariannol y darparwyr y mae'r drefn trosolwg o'r farchnad yn berthnasol iddynt. Y rhan berthnasol o Ddeddf 2014 yw adran 144B(2)(a)(ii).

3. Paratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad

- 3.1. Mae'r bennod hon yn cynnwys canllawiau ar gyfer paratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Mae'n cynnwys canllawiau ar gyfer asesu digonolrwydd y gofal a'r cymorth, ac ar gyfer asesu sefydlogrwydd y farchnad gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth.

Pwrpas

- 3.2. **Rhaid** i adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ddarparu asesiad o'r canlynol:

- digonolrwydd y gofal a'r cymorth i ddiwallu anghenion a'r galw am ofal cymdeithasol, fel y nodir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth, a
- sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth.

- 3.3. Bydd yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn helpu comisiynwyr gofal a chymorth (awdurdodau lleol a'u Byrddau Iechyd Lleol partner) yn benodol i ddeall cyfansoddiad a deinameg y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan osod hyn yng nghydestun ehangach darparu gofal a chymorth yn gyffredinol. Bydd iddo agwedd feintiol ac ansoddol, a'r nod fydd disgrifio'r patrwm presennol o ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, ac asesu materion megis digonolrwydd, ansawdd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth.

- 3.4. Mae'r ddyletswydd i baratoi ac i gyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, fel y nodir yn Neddf 2014, ar bob awdurdod lleol, ond mae'r Rheoliadau'n golygu ei bod yn rhaid iddynt gyflawni'r swyddogaeth hon ar ôl-troed rhanbarthol, er mwyn i un adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad gael ei baratoi ar gyfer pob un o'r saith ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o ddigonolrwydd, ac o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn ogystal ag ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gyffredinol. Drwy wneud hynny, bydd yr adroddiad yn cyfrannu at benderfyniadau rhanbarthol a lleol ynghylch comisiynu gofal a chymorth (yn enwedig gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, ond nid dim ond y rheini), gan gyfrannu at y cynllun ardal strategol ar gyfer ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a helpu i siapia strategaethau comisiynu lleol a rhanbarthol.

- 3.5. **Rhaid** cael cysylltiad clir rhwng yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad a'r asesiad o anghenion y boblogaeth sydd hefyd yn gorfod cael ei baratoi ar gyfer pob ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn nodi'r angen a'r galw am ofal a chymorth ar hyn o bryd a'r lefelau


disgwyliedig, a'r ystod a'r math o wasanaethau y bydd eu hangen i ateb y galw hwnnw. Bydd yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn asesu digonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir i ddiwallu'r anghenion a'r galw a sefydlwyd drwy'r asesiad o anghenion y boblogaeth, yn ogystal â nodweddion a sefydlogrwydd cyffredinol marchnadoedd lleol a rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Gyda'i gilydd, dylai'r ddwy ddogfen roi darlun cynhwysfawr i'r rheini sy'n comisiynu gofal a chymorth, ar lefel ranbarthol a lleol, o'r galw a'r cyflenwad ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

- 3.6. Bydd yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad hefyd yn gyfrwng defnyddiol i ddarparwyr a darpar ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Bydd yn eu helpu i ddeall cyflwr y farchnad yn well mewn rhanbarth penodol, ac yn cyfrannu at eu syniadau strategol eu hunain am fuddsoddi yn y farchnad honno yn y dyfodol.
- 3.7. Bwriad adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yw rhoi trosolwg ac asesiad lefel uchel o ddigonolrwydd cyffredinol gofal a chymorth, a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Bydd dal angen i awdurdodau lleol a / neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynhyrchu datganiadau manylach o sefyllfa'r farchnad ar gyfer gwasanaethau neu segmentau penodol sy'n cael eu rheoleiddio o'r farchnad gofal cymdeithasol. Bydd y rhain wedi'u cysylltu â'r bwriadau a'r blaenoriaethau comisiynu a nodir mewn strategaethau comisiynu lleol neu ranbarthol.
- 3.8. Bydd adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad hefyd o ddiddordeb i ddinasyddion, yn enwedig unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofawyr, a'r rheini sy'n eiriol ac yn gweithio ar eu rhan. Bydd yr asesiad digonolrwydd, yn benodol, yn helpu i ddal awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif gyda'u poblogaeth, drwy ddangos yn dryloyw sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio a sut mae penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau'n cael eu gwneud.

Fframwaith comisiynu

- 3.9. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn cyd-fynd â'r fframwaith comisiynu cyffredinol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Ffrmwair Cynllunio a Chomisiynu Byrddau Partneriaeth



Pwy sydd angen cymryd rhan?

- 3.10. **Rhaid** i awdurdodau lleol gydweithio, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol a phartneriaid eraill drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i baratoi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer eu hardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ei gyfanrwydd ddylai fod yn berchen ar yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, gyda phob partner yn cyfrannu yn ôl yr angen. Er bod cyfran fawr o ofal a chymorth yn cael ei chomisiynu gan awdurdodau lleol (yn enwedig gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio), mae'r farchnad gyffredinol ar gyfer gofal cymdeithasol yn ehangach o lawer ac yn fwy amrywiol na hyn. Bydd rhai gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu comisiynu ar y cyd â Byrddau Iechyd Lleol, a bydd gan addysg a thai mewn awdurdodau lleol ran i'w chwarae i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol ochr yn ochr â gwasanaethau cymdeithasol. Bydd rhai mathau o ofal cymdeithasol yn cael eu prynu gan unigolion, drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol neu fel unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain. Rhaid i awdurdodau lleol fynd ati mewn ffordd gyfannol i ystyried digonolrwydd y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu. Rhaid ystyried y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio a'r rheini a ddaw drwy ddarpariaeth arall, a bydd holl bartneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn

cyfrannu at hyn. Mae rhagor o ganllawiau ar weithio mewn partneriaeth ar gael yn Rhan 2 (pennod 6) isod.

- 3.11. **Rhaid** i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i ymgysylltu â dinasyddion wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, rhieni plant sydd ag anghenion gofal a chymorth, a gofalwyr. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd gysylltu â darparwyr neu ddarpar ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio ar draws y sector preifat a'r trydydd sector. Dylai awdurdodau lleol hefyd gynnwys eu rheolwyr gwasanaeth neu staff eu hunain os bydd gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu'n uniongyrchol.

Beth sydd angen ei asesu?

- 3.12. **Rhaid** i awdurdodau lleol asesu:

- digonolrwydd y gofal a'r cymorth i ddiwallu anghenion a'r galw am ofal cymdeithasol, fel y nodir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth, a
- sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth.

- 3.13. Wrth asesu digonolrwydd gofal a chymorth, dylid cael cysylltiad clir â'r asesiad o anghenion y boblogaeth, a fydd wedi nodi ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth leol.

- 3.14. Gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yw'r rheini sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen i Ddeddf 2016. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau cartref gofal (oedolion a phlant)
- gwasanaethau llety diogel (i blant)
- gwasanaethau canolfan breswyl i deuluoedd
- gwasanaethau mabwysiadu
- gwasanaethau maethu
- gwasanaethau lleoli oedolion ('Cysylltu Bywydau')
- gwasanaethau eirioli
- gwasanaethau cymorth cartref.

Mae modd ychwanegu gwasanaethau eraill at yr Atodlen i Ddeddf 2016 o bryd i'w gilydd.

- 3.15. Wrth asesu sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, **rhaid** i awdurdodau lleol asesu'n benodol y materion canlynol a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau:

- digonolrwydd darpariaeth y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth, gan gynnwys unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth i

ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad diweddaraf o'r boblogaeth;

- ansawdd cyffredinol y gofal a'r cymorth a ddarperir gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio i ddiwallu anghenion a chanlyniadau personol pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr;
- tueddiadau cyfredol neu sy'n datblygu o ran darparu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth, a'u heffaith neu eu heffaith debygol ar ddigonolrwydd, ansawdd neu sefydlogrwydd y gwasanaethau a ddarperir;
- unrhyw heriau sylweddol i ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd y gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cael eu rheoleiddio sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd neu yn y dyfodol; ac
- effaith comisiynu ac ariannu ar ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth, gan gynnwys dulliau rhanbarthol a defnyddio cyllid a gydgasglwyd.

- 3.16. Mae gwasanaethau eraill nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2016 sydd hefyd yn helpu i ddiwallu angen unigolyn am ofal a / neu gymorth. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â chymorth i ofalwyr ac i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Wrth baratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, **rhaid** i awdurdodau lleol ystyried sut mae'r gwasanaethau hyn yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio – ac, yn wir, sut mae siâp y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn effeithio ar agweddau eraill ar ddarpariaeth gofal a chymorth. Er enghraifft, wrth asesu'r farchnad ar gyfer maethu a gofal preswyl i blant hŷn sy'n derbyn gofal (dau wasanaeth sy'n cael eu rheoleiddio), dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried pa opsiynau llety sydd ar gael iddynt ar gyfer symud ymlaen pan fyddant yn gadael gofal, gan gynnwys (er enghraifft) effaith trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' ar y lleoliadau maethu sydd ar gael.
- 3.17. Nid yw gwasanaethau ataliol yn cael eu rheoleiddio, ond mae Rhan 2 y Cod Ymarfer yn golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried gwasanaethau ataliol fel rhan o'r asesiadau o anghenion y boblogaeth, a nodi'r ystod a'r math o wasanaethau ataliol y bydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, mae awdurdodau lleol
- 3.18. Mae'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael hefyd yn gallu cael effaith fawr ar yr angen am wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio – er enghraifft, drwy leihau'r angen i blant fynd i ofal, neu alluogi pobl hŷn i aros gartref yn hytrach na mynd i ofal preswyl neu ysbyty. Felly, bydd angen i awdurdodau lleol ddeall proffil, digonolrwydd, ansawdd ac effaith gwasanaethau ataliol, yn ogystal â'r farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth eu poblogaethau lleol yn llawn. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried effaith gyffredinol gwasanaethau ataliol ar y farchnad gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.

Digonolrwydd

- 3.19. Mae digonolrwydd yn golygu mwy na dim ond mesur faint o ofal a chymorth sy'n cael eu darparu yn yr ardal leol. Dylid asesu digonolrwydd yn erbyn yr asesiad o anghenion y boblogaeth, sy'n sefydlu lefelau'r galw a disgwyliadau dinasyddion. **Rhaid** i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ystyried i ba raddau mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu'r math iawn a'r cymysgedd iawn o wasanaethau i ddiwallu anghenion a dewisiadau unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, ac yn darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mewn cysylltiad â gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, **rhaid** iddo hefyd ystyried amrywiaeth y farchnad, a'r cymysgedd o ddarparwyr sydd ar gael ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
- 3.20. Ni ddylai'r asesiad digonolrwydd ond ganolbwyntio ar y ddarpariaeth bresennol, dylai hefyd ystyried cynaliadwyedd a darparu gofal a chymorth yn y dyfodol i ddiwallu'r anghenion a'r galw a nodwyd yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth. **Rhaid** i'r asesiad gynnwys newidiadau yn y patrymau o alw, gan gynnwys newidiadau yn nisgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth; tueddiadau ar hyn o bryd a rhai sy'n dod i'r amlwg; heriau, risgiau a chyfleoedd; a sut bydd pob un o'r rhain yn effeithio ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth wrth symud ymlaen i'r pum mlynedd nesaf.
- 3.21. **Rhaid** i'r asesiad o sefydlogrwydd y farchnad hefyd ystyried lleoliad y gofal a'r cymorth, a materion sy'n ymwneud â hygrychedd. Pan fo'n bosibl, dylid darparu gofal a chymorth yng nghymuned leol yr unigolyn, lle gall fod yn agos at ffrindiau a theulu. Mae hyn yn arbennig o bwysig, er enghraifft, wrth leoli plant sy'n derbyn gofal, neu ar gyfer preswylwyr hŷn y mae angen iddynt symud i ofal preswyl neu lety â chymorth.
- 3.22. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyffredinol o dan Ran 6 o Ddeddf 2014 i gymryd camau i sicrhau bod ganddynt ddigon o lety yn ardal eu hawdurdod lleol i ddiwallu anghenion eu plant sy'n derbyn gofal. Ac eithrio 'trefniadau eraill' ar gyfer rhai pobl ifanc 16-17 oed, bydd y llety hwn yn cael ei ddarparu gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio (maethu, cartrefi gofal, llety diogel, neu ganolfannau preswyl i deuluoedd). Mae Rhan 6 y Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya) yn golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried manteision cael digon o ddarparwyr amrywiol yn eu hardal i gyflawni'r ddyletswydd hon, a'u bod yn gallu diwallu anghenion gwahanol. Y nod yw gwella'r dewis o leoliadau a'u hansawdd, a lleihau'r tebygolrwydd na fydd lleoliadau addas ar gael i blant sy'n derbyn gofal yn eu hardal leol. Mae Rhan 6 y Cod yn awgrymu y gallai fod ar awdurdodau lleol eisiau ystyried gwneud trefniadau ar sail ranbarthol pan fydd hynny'n briodol. Mae llety y gallai fod angen ei gomisiynu'n rhanbarthol yn cynnwys gofal preswyl i blant sydd â pheccynnau gofal cymhleth, neu lety diogel i blant sydd mewn perygl o fynd i lety diogel neu sy'n dod o lety diogel. Bydd yr asesiadau o sefydlogrwydd y farchnad yn rhoi cyfle i'r awdurdodau lleol asesu sut maent wedi cyflawni'r ddyletswydd digonolrwydd o dan Ran 6, ac yn eu helpu i benderfynu pa fathau o lety a fyddai orau i'w comisiynu ar sail ôl-troed rhanbarthol.

Dylai'r broses hefyd helpu i sicrhau cyfranogiad priodol gan Fyrddau Iechyd Lleol a phartneriaid rhanbarthol eraill, mewn perthynas â gwasanaethau y gallai fod angen eu comisiynu ar y cyd.

Gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio

3.23. Wrth asesu digonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, **rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i'r materion canlynol fel y nodir yn yr Atodlen i'r rheoliadau.

- **Ansawdd**

3.24. **Rhaid** i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn darparu gofal a chymorth o safon i unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, ac a yw cyflwr y farchnad yn peryglu ansawdd y ddarpariaeth. Bydd ansawdd yn cael ei fonitro ar sawl lefel, yn unigol, yn sefydliadol ac yn rhanbarthol. Bydd gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch ansawdd gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn cynnwys canlyniadau arolygiadau, gwaith monitro contractau awdurdodau lleol, gwybodaeth gan systemau monitro ansawdd awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, ac o fframweithiau comisiynu cenedlaethol fel y rheini ar gyfer gwasanaethau plant sy'n cael eu rheoli gan y Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru.

- **Tueddiadau**

3.25. Dylai'r asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ystyried cyfansoddiad a sefydlogrwydd y farchnad bresennol ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, ond **rhaid** iddo hefyd ystyried sut mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn debygol o edrych yn y dyfodol. Mae adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn cyfrannu at y cynllun ardal, sy'n gosod cyfeiriad strategol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am y pum mlynedd ganlynol. Bydd deall tueddiadau'r farchnad, fel mynediad ac ymadael, yn helpu i ddiogelu penderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol at y dyfodol ynghylch comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth. Mae asesu tueddiadau'n debygol o gael ei arwain gan wybodaeth am yr hyn y mae ar ddinasyddion eisiau mwy ohono (er enghraifft, tai gofal ychwanegol neu lety â chymorth, yn hytrach na llety traddodiadol mewn cartrefi gofal), effaith newidiadau demograffig ar y farchnad gofal cymdeithasol (er enghraifft, yr angen am ddarpariaeth cartrefi gofal mwy arbenigol ar gyfer yr unigolion hynaf a mwyaf bregus), neu effaith technolegau newydd fel Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg.

- **Heriau**

3.26. Mae angen i awdurdodau lleol fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch yr heriau a'r risgiau sy'n wynebu comisiynwyr a/neu ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae angen iddynt fod yn agored ynghylch sut maent yn bwriadu lliniaru'r risgiau hynny ac ymateb i'r

heriau hynny. Bydd yr heriau hyn hefyd yn arwain at gyfleoedd i arloesi neu ymateb mewn ffyrdd newydd i newidiadau mewn disgwyliadau neu amgylchiadau.

- 3.27. Ni ddylai'r ffaith y bydd adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn cael eu cyhoeddi lesteirio'r drafodaeth onest am risgiau a heriau rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd angen i awdurdodau lleol gael cydbwysedd rhwng creu gofod ar gyfer trafodaethau agored a gonest yn eu sefydliadau eu hunain ac yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a bod yn agored ac yn dryloyw gyda darparwyr a'r cyhoedd yn y ddogfen derfynol a fydd yn cael ei chyhoeddi.
- 3.28. **Rhaid** i awdurdodau lleol hefyd ystyried sut y gellid lliniaru'r risgiau a nodwyd, gan gynnwys sut y bydd y risgiau hynny'n cael eu rhannu rhwng partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

- **Effaith comisiynu**

- 3.29. Wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, **rhaid** i awdurdodau lleol ystyried effaith comisiynu a chyllido ar ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio a ddarperir ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. **Rhaid** iddynt asesu dulliau rhanbarthol a lleol o gomisiynu, a defnyddio cyllid a gydgasglwyd. Bydd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel mecanwaith comisiynu ar gyfer gwasanaethau arbenigol, a defnyddio ffrydiau cyllid refeniw a chyfalaf ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- 3.30. Mae'n werth pwysleisio yma eto mai prif bwrpas yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yw darparu gwybodaeth a dadansoddiad am y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, a fydd, ynghyd â'r asesiad o anghenion y boblogaeth, yn helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu eu Cynllun Ardal ac unrhyw ddogfennau comisiynu manylach sy'n deillio ohono. Bydd asesu effaith penderfyniadau comisiynu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yr awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ar siâp ac ar sefydlogrwydd darpariaeth y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio dros y pum mlynedd ers cynnal yr asesiad diwethaf o anghenion y boblogaeth, yn helpu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r cyrff sy'n rhan ohono i benderfynu sut dylent fynd at i gomisiynu'n strategol yn y dyfodol.

Menter gymdeithasol

- 3.31. Mae adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol ystyried rôl a gwerth ychwanegol y sector gwerth cymdeithasol wrth ddarparu gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys cyfraniad mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddiwr a'r trydydd sector i'r farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried y sector gwerth cymdeithasol wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, gan

gynnwys y mathau o wasanaethau a ddarperir a'u hystod, gan gynnwys unrhyw feysydd arbenigol neu werth ychwanegol.

- 3.32. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan adran 16 o Ddeddf 2014 i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddiwr a'r trydydd sector. Dylai'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ystyried i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi defnyddio'r ddyletswydd hon i siapio neu ail-siapio darpariaeth gofal a chymorth, gan gynnwys y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Mae enghreifftiau'n cynnwys lle mae awdurdodau lleol wedi cefnogi asiantaethau maethu annibynnol bach i ddod yn ddarparwyr dielw, neu wedi cefnogi datblygu modelau cydweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cartref. Dylai hyn fod yn rhan o'r asesiad o effaith penderfyniadau comisiynu ar y ffordd mae gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio'n cael eu darparu.

Adnoddau

- 3.33. Bydd adnoddau cyllido, a'r ffordd y cânt eu defnyddio, yn cael effaith fawr ar ddigonolrwydd a phatrwm y gofal a'r cymorth ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a sut mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau wedi'u rheoleiddio'n gweithio. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried effaith adnoddau wrth gynnal eu hasesiadau digonolrwydd, a **rhaid** iddynt ystyried sut mae penderfyniadau ynghylch adnoddau a buddsoddi yn effeithio ar sefydlogrwydd darpariaeth gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd hyn yn cynnwys penderfyniadau strategol ar ddyrannu cyllidebau yn ogystal â dulliau o gytuno ar ffioedd a chostau gwasanaethau. Mae'n bwysig bod cost darparu'n cael ei hystyried a'i chyfrifo'n ofalus wrth bennu pris gwasanaeth.
- 3.34. **Rhaid** i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad gynnwys gwybodaeth am y rheini sy'n ariannu eu pecynnau gofal a chymorth eu hunain, er mwyn creu proffil o'r grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth a'r effaith a gânt ar y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Mae'n bwysig deall beth maent yn ei brynu a'r hyn byddent yn hoffi ei brynu, gan gynnwys newidiadau ym mhatrymau'r galw. Bydd awdurdodau lleol hefyd eisïau asesu i ba raddau mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio'n benodol yn cynnig y dewis o wasanaethau a'r gwasanaethau o ansawdd sydd eu hangen ar unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, a'r ffactorau a allai hyrwyddo neu lesteirio hyn.
- 3.35. **Rhaid** i'r adroddiad hefyd ystyried darparu gofal a chymorth a brynir gan unigolion sy'n prynu eu gofal a'u cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Dylai hyn gynnwys y nifer sy'n hawlio taliadau uniongyrchol ac effaith hyn ar y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Bydd yn bwysig deall pa ofal a chymorth y mae'r unigolion hyn yn ei brynu, beth hoffent ei brynu yn y dyfodol, ac unrhyw ffactorau neu faterion sy'n effeithio ar argaeledd, dewis neu ansawdd gwasanaethau i unigolion sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol. Pwrpas taliadau uniongyrchol yw rhoi mwy o ddewis a rheolaeth uniongyrchol i unigolion dros y gofal a'r cymorth a gânt, a hyrwyddo atebion arloesol i ddiwallu anghenion a gwella canlyniadau, felly bydd deall y berthynas rhwng gwasanaethau sy'n cael eu

rheoleiddio a dulliau cymorth eraill mewn pecynnau taliadau uniongyrchol yn arbennig o bwysig wrth asesu sut mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio'n gweithio i'r grŵp penodol hwn o ddefnyddwyr.

Y Gweithlu

- 3.36. Bydd cyfansoddiad a nodweddion y gweithlu gofal cymdeithasol yn ffactor pwysig wrth bennu digonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. **Rhaid** i'r asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ddarparu disgrifiad o'r gweithlu gofal a chymorth presennol, yn enwedig ar draws gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Dylai hyn gynnwys maint a natur unrhyw ddiffyg mewn niferoedd mewn unrhyw sector penodol, ac unrhyw risgiau neu heriau nawr neu yn y dyfodol. Bydd hefyd angen i'r asesiad ystyried effaith recriwtio, datblygu a hyfforddi'r gweithlu gofal cymdeithasol ar ddarparu gofal a chymorth, a nodi unrhyw fylchau mewn sgiliau, gan gynnwys lle mae prinder staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu modelau penodol o ofal (er enghraifft, dulliau o weithio gyda phlant mewn gofal sy'n seiliedig ar drawma).

Y Gymraeg

- 3.37. **Rhaid** i awdurdodau lleol asesu digonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg yn erbyn proffil cymunedol y Gymraeg a sefydlwyd yn ystod yr asesiad o anghenion y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. **Rhaid** i awdurdodau lleol hefyd ystyried sut gallai tueddiadau nawr neu yn y dyfodol yn y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio effeithio ar ddarparu gofal a chymorth i'r gymuned Gymraeg, yn ogystal ag unrhyw heriau a risgiau a nodwyd, ac effaith penderfyniadau comisiynu a chyllido awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Methiant darparwr

- 3.38. Wrth baratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, **rhaid** i awdurdodau lleol ystyried unrhyw wersi sydd wedi cael eu dysgu o'r camau a gymerwyd o dan adran 189(2) o Ddeddf 2014, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau os na fydd darparwr gwasanaeth cofrestredig yn gallu darparu gwasanaeth oherwydd bod y busnes wedi methu. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol, cyhyd ag y bo'n credu bod hynny'n angenrheidiol, ddiwallu anghenion yr oedolion yr oedd y person cofrestredig yn darparu llety neu wasanaethau ar eu cyfer. Mae adran 144B o Ddeddf 2014 yn golygu bod angen i'r hyn a ddysgir drwy gyflawni'r ddyletswydd hon gael ei gynnwys yn yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, a bydd angen i'r corff cydgysylltu gasglu'r wybodaeth hon gan yr awdurdodau lleol ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Cynnal asesiad o sefydlogrwydd y farchnad

- 3.39. **Rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i'r datganiad ar ganlyniadau llesiant a'r mesurau a osodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 8 o Ddeddf 2014 wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.
- 3.40. Mae'r datganiad yn disgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth ac i ofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae'r datganiad yn adeiladu ar y diffiniad o lesiant yn Neddf 2014, ac yn disgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol mewn perthynas â phob agwedd ar fywyd unigolyn. Fe'i cyhoeddwyd i feithrin dealltwriaeth gyffredin o lesiant ar draws pob asiantaeth, er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un canlyniadau. Bydd llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn cael ei fonitro'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru drwy'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019. Mae'r fframwaith, sy'n cynnwys y canlyniadau llesiant, ar gael yn <https://llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-cenedlaethol-gwasanaethau-cymdeithasol>.

Ymgysylltu â dinasyddion

- 3.41. **Rhaid** i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, rhieni plant sydd ag anghenion gofal a chymorth, a gofalwyr, wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Bydd barn dinasyddion yn arbennig o bwysig wrth asesu digonolrwydd ac ansawdd gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth unigolion a sicrhau canlyniadau llesiant personol. Ni fydd rhannau eraill o'r adroddiad yn gofyn am gyfraniad uniongyrchol gan y cyhoedd – er enghraifft, nodi pwysau neu dueddiadau yn y farchnad, nac effaith comisiynu ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd mecanweithiau eisoes ar waith i ymgysylltu â dinasyddion yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth, a dylai awdurdodau lleol allu eu defnyddio wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad hefyd.

Ymgysylltu â darparwyr

- 3.42. **Rhaid** i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau eu bod yn ymgysylltu ag unrhyw sefydliadau sector preifat neu drydydd sector sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i'r boblogaeth leol, neu sydd â diddordeb yn hynny. Bydd angen gwybodaeth a data a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaethau i greu proffil o ofal a chymorth ar lefel ranbarthol a lleol, a bydd barn darparwyr am weithrediad y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn cyfrannu at asesiad cyflawn o sefydlogrwydd cyffredinol y farchnad. **Rhaid** i awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn uniongyrchol hefyd gymryd camau i ymgysylltu â rheolwyr a staff, fel y bo'n briodol, wrth gynnal eu hasesiad o sefydlogrwydd y farchnad. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr a staff y GIG lle caiff gwasanaethau eu comisiynu ar y cyd.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

- 3.43. **Rhaid** cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r broses o baratoi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, yn unol â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf 2014 i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn; a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n golygu ei bod yn rhaid i bob awdurdod cyhoeddus roi sylw dyledus i nodweddion gwarchodedig wrth arfer ei swyddogaethau.
- 3.44. Mae hyn yn golygu ei bod yn **rhaid** i awdurdodau lleol, wrth asesu digonolrwydd gofal a chymorth, a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, ystyried yn benodol yr effaith ar oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredoau, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol (y 'nodweddion gwarchodedig'), a rhoi sylw dyledus i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig. **Rhaid** cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, ond dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd sicrhau bod unrhyw effeithiau arwyddocaol ar grwpiau penodol, neu mewn perthynas ag unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig, yn cael eu trafod a'u gwreiddio ym mhrif gorff yr adroddiad lle bo hynny'n briodol.

Amserlen

- 3.45. **Rhaid** i awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad bob pum mlynedd, a bydd yr adroddiadau cyntaf yn cael eu cyhoeddi erbyn 1 Mehefin 2022. Mae hyn yn cysylltu â chylch etholiadol llywodraeth leol, ac mae'n golygu y bydd awdurdodau lleol yn cynnal eu hasesiadau digonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad ar yr un pryd â'r asesiadau o anghenion y boblogaeth.

4. Cynnwys a strwythur adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad

- 4.1. Mae'r bennod hon yn nodi beth mae angen ei gynnwys mewn adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a sut dylid eu cyflwyno. **Cynnwys**
- 4.2. **Rhaid** i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad gynnwys asesiad o ddigonolrwydd y gofal a'r cymorth ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad diweddaraf o anghenion y boblogaeth. **Rhaid** i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad gynnwys asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys y materion canlynol sydd wedi'u nodi yn yr Atodlen i'r Rheoliadau:
- digonolrwydd darpariaeth y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth, gan gynnwys unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad diweddaraf o'r boblogaeth;
 - ansawdd cyffredinol y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth i ddiwallu anghenion a chanlyniadau personol pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr;
 - tueddiadau cyfredol neu sy'n datblygu o ran darparu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth, a'u heffaith neu eu heffaith debygol ar ddigonolrwydd, ansawdd neu sefydlogrwydd y gwasanaethau a ddarperir;
 - unrhyw heriau sylweddol i ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd y gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd neu yn y dyfodol; ac
 - effaith mecanweithiau a dulliau comisiynu ac ariannu ar ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, gan gynnwys dulliau partneriaeth rhanbarthol a defnyddio cyllid a gydgasglwyd.
- 4.4. **Rhaid** i'r adroddiad gynnwys adran ar unrhyw gamau a gymerwyd gan unrhyw un o'r awdurdodau lleol yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod y cyfnod dan sylw yn unol â'u dyletswydd o dan adran 189(2) o Ddeddf 2014, i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion perthnasol os bydd darparwr wedi methu gwneud hynny. Rhaid i hyn gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd ac argymhellion ar gyfer camau lliniaru yn y dyfodol.
- 4.5. **Rhaid** i'r adroddiad hefyd ddisgrifio:

- rôl a chyfraniad pob awdurdod lleol a phartneriaid eraill y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gynnal asesiad o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad, a pharatoi'r adroddiad
- sut roedd yr awdurdodau lleol yn ymgysylltu â dinasyddion wrth gynnal yr asesiad o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad, a chrynodeb o'r prif negeseuon a materion a oedd yn codi
- sut roedd yr awdurdodau lleol yn ymgysylltu â darparwyr y sector preifat a'r trydydd sector sydd â diddordeb mewn darparu gofal a chymorth i'r boblogaeth leol, a chrynodeb o'r prif negeseuon a'r materion a godwyd.

4.6. Dylid drafftio'r adroddiad gan ddefnyddio iaith hygyrch er mwyn i ystod mor eang o randdeiliaid â phosibl allu ei darllen a'i ddeall, gan gynnwys dinasyddion a darparwyr.

4.7. **Rhaid** i'r adroddiad gynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb fel y nodir ym mharagraffau 3.43 a 3.44 uchod.

Strwythur

4.8. Dylai'r ffordd y caiff adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ei osod ei gwneud yn hawdd cysylltu'n ôl â'r asesiad o anghenion y boblogaeth, sy'n nodi anghenion gofal a chymorth y boblogaeth leol a'r ystod a'r math o wasanaethau y bydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae Rhan 2 y Cod Ymarfer yn mynnu bod asesiadau o anghenion y boblogaeth yn cynnwys themâu craidd penodol, gan gynnwys:

- plant a phobl ifanc
- pobl hŷn
- iechyd / anabledau corfforol
- anabled dysgu / awtistiaeth
- iechyd meddwl
- nam ar y synhwyrâu
- gofalywyr y mae angen cymorth arnynt
- trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

4.9. Dylai'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad hefyd adlewyrchu'r themâu craidd hyn, gan broffilio a mesur digonolrwydd gofal a chymorth yn erbyn pob thema, pan fydd hynny'n briodol. **Rhaid** cael cysylltiad clir, o leiaf, rhwng yr hyn y mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn ei ddweud am yr angen a'r galw am ofal a chymorth, a'r hyn mae'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn ei ddweud am ddigonolrwydd y ddarpariaeth o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio i ddiwallu'r anghenion hynny.

5. Cyflwyno, monitor ac adolygu

- 5.1. Mae'r bennod hon yn nodi'r gofynion ar gyfer cytuno ar adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a'u cyflwyno, monitro ac adolygu'r adroddiadau, a beth mae angen i awdurdodau lleol ei wneud pan wneir diwygiadau.

Cytuno ar yr adroddiad

- 5.2. Ar ôl ei gwblhau, **rhaid** i awdurdodau lleol gyflwyno'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, cyn ei gyflwyno i bob awdurdod lleol i'w gymeradwyo'n ffurfiol. Bydd angen i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r adroddiad ar ôl iddo gael ei gyflwyno gan weithrediaeth neu fwrdd y cyngor. Dylid caniatáu digon o amser ar gyfer hyn, er mwyn bodloni'r terfynau amser ar gyfer cyhoeddi a chyflwyno i Weinidogion Cymru.

Cyhoeddi

- 5.3. Mae adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn ddogfennau cyhoeddus a rhaid eu cyhoeddi. **Rhaid** i bob awdurdod lleol gyhoeddi'r adroddiad ar gyfer ei ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ei wefan, a dylid cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd.

Cyflwyno i Weinidogion Cymru

- 5.4. **Rhaid** cyflwyno adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad i Weinidogion Cymru ar ffurf electronig adeg eu cyhoeddi. Dylid dirprwyo'r swyddogaeth hon i'r corff cydgysylltu arweiniol.

Adolygu

- 5.5. **Rhaid** i awdurdodau lleol adolygu eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn rheolaidd a'u diwygio yn ôl yr angen. Dylid adolygu'r adroddiadau pan fydd unrhyw newidiadau sylweddol yn y farchnad gofal cymdeithasol, ac o leiaf yng nghanol y cylch asesu, yn dilyn yr adolygiad canol cylch o'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Os bydd newidiadau sylweddol yn dilyn adolygiad, **rhaid** i awdurdodau lleol gynhyrchu naill ai adroddiad diwygiedig neu atodiad, a bydd yn **rhaid** ei gyhoeddi ar wefannau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r awdurdodau lleol, a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru.

RHAN 2 Canllawiau Statudol

6. Trefniadau partneriaeth

- 6.1. Mae'r bennod hon yn edrych ar y trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol er mwyn paratoi a chyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.

Mae'r bennod hon yn ganllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 169 o Ddeddf 2014, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol roi sylw iddynt.

- 6.2. Roedd Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sefydlu saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni swyddogaethau penodol wedi'u dirprwyo gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae *Rheoliadau (drafft) Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a Threfniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2021* ('y Rheoliadau') yn cynnwys paratoi a chyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ymysg y swyddogaethau sydd i'w cyflawni o dan y trefniadau partneriaeth hyn. Mae hyn yn golygu ei bod yn **rhaid** i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynhyrchu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar ôl troed rhanbarthol, gan gydweithio drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- 6.3. **Rhaid** i awdurdodau lleol a Bwrdd Iechyd Lleol pob un o ardaloedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol baratoi a chyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer yr ardal honno. Wrth wneud hynny, **rhaid** i awdurdodau lleol weithredu'n unol â gofynion y cod ymarfer a nodir ym mhenodau 1-5 y ddogfen hon, a **rhaid** i Fyrdau Iechyd Lleol ymgysylltu fel partneriaid gweithredol ag awdurdodau lleol i gyflawni'r gofynion hynny.
- 6.4. Wrth baratoi eu hadroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, **rhaid** i awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol gynnal asesiad o ddigonolrwydd gofal a chymorth yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys y gwasanaethau hynny sy'n cael eu comisiynu ar y cyd, a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yw'r rheini sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen i Ddeddf 2016. Wrth asesu digonolrwydd a sefydlogrwydd gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, **rhaid** iddynt gynnwys y materion canlynol: ansawdd cyffredinol y gwasanaethau hynny; tueddiadau cyfredol neu sy'n datblygu yn y ddarpariaeth; unrhyw heriau sylweddol i ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd nawr neu yn y dyfodol; ac effaith mecanweithiau a dulliau comisiynu ac ariannu ar ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, gan gynnwys dulliau partneriaeth rhanbarthol a defnyddio cyllid a gydgasglwyd. (Cod Ymarfer, paragraffau 3.23 i 3.30)

- 6.5. **Rhaid** i awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol gymryd camau rhesymol i ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, rhieni plant sydd ag anghenion gofal a chymorth, a gofalwyr, wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. **Rhaid** iddynt hefyd wneud trefniadau i ymgysylltu â darparwyr neu ddarpar ddarparwyr gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cael eu rheoleiddio, ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. (Cod Ymarfer 3.41 i 3.42)
- 6.6. **Rhaid** i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynhyrchu un adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ym mhob cylch etholiadol llywodraeth leol. **Rhaid** cynhyrchu'r adroddiad cyntaf erbyn 1 Mehefin 2022.
- 6.7. **Rhaid** i awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol enwebu corff cydgysylltu arweiniol ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, gan ystyried arbenigedd, gwybodaeth ac adnoddau perthnasol sydd eisoes ar gael. Disgwylir y bydd y corff arweiniol yn awdurdod lleol. Y corff cydgysylltu arweiniol fydd yn gyfrifol am gydgyssylltu'r asesiadau o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad, a chynhyrchu adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, ond **rhaid** i bob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol gymryd rhan yn yr ymarfer yn ôl gofyn y corff cydgysylltu arweiniol. Gellir adolygu'r corff cydgysylltu arweiniol a fydd wedi'i enwebu pan fydd y bartneriaeth yn penderfynu bod hynny'n briodol.
- 6.8. **Rhaid** i awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol gynhyrchu un adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad. **Rhaid** i'r adroddiad gwmpasu ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ei chyfanrwydd, ond bydd hefyd yn cynnwys asesiad o ddigonolrwydd gofal a chymorth ym mhob ardal awdurdod lleol, ac unrhyw ffactorau sy'n effeithio'n benodol ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw. **Rhaid** i'r corff cydgysylltu arweiniol sicrhau bod fformat yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ar y cyd yn gyson.
- 6.9. Y corff cydgysylltu arweiniol sy'n gyfrifol am ddatrys problemau a allai lesteirio cynhyrchu adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ar y cyd. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn gallu helpu i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi naill ai yng nghyswllt cynnal asesiadau o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad, neu wrth gytuno ar yr adroddiad.
- 6.10. Nid yw adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn disgrifio cyfansoddiad a nodweddion y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn unig, maent hefyd yn cynnwys rhywfaint o farn, yn enwedig ynghylch digonolrwydd ac effaith comisiynu gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, felly mae'n bwysig bod y cyrff partneriaeth yn cytuno ar yr asesiad ac ar yr adroddiad. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai na fydd yn bosibl i'r holl awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol gytuno ar agwedd benodol ar yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ar y cyd. Os oes anghytundeb ynghylch casgliadau neu gynnwys yr adroddiad, dylai'r corff cydgysylltu arweiniol geisio datrys y rhain yn y lle cyntaf, ond os nad yw hyn yn bosibl dylid cyfeirio'r mater at y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Os nad yw'n bosibl cytuno o hyd ar unrhyw agwedd ar yr asesiad, yna dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol roi sylw i'r safbwyntiau gwahanol ac adlewyrchu'r rhain yn yr adroddiad.

- 6.11. **Rhaid** i'r awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyd gyfrannu at unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r ymarfer. (Dylai'r costau fod yn fach iawn a byddant yn cynnwys amser staff yn bennaf, er y gallai rhai costau godi wrth argraffu neu ymgysylltu â dinasyddion).
- 6.12. **Rhaid** i'r awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn y trefniant partneriaeth rannu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen er mwyn paratoi'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad. **Rhaid** rhannu unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy yn unol ag egwyddorion Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Mae pob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru wedi ymrwmo i Gytgord Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar gael yn: <http://www.waspi.org/hafan>.
- 6.13. Ar ôl ei gwblhau, **rhaid** i awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol gyflwyno'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gytuno arno, cyn ei gyflwyno i bob awdurdod lleol ac i'r Bwrdd Iechyd Lleol i'w gymeradwyo'n ffurfiol.
- 6.14. **Rhaid** cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar sefydlogrwydd y farchnad erbyn mis Mehefin 2022 a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru adeg ei gyhoeddi. Y corff cydgysylltu arweiniol sy'n gyfrifol am gyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru.
- 6.15. **Rhaid** i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol adolygu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn rheolaidd a'u diwygio yn ôl yr angen. Y corff cydgysylltu arweiniol sy'n gyfrifol am reoli'r gwaith adolygu hyn ac am gyflwyno unrhyw atodiadau dilynol i Weinidogion Cymru.